



Coleg  
Cymraeg  
Cenedlaethol

# Casgliad o dasgau i ddatblygu ac asesu sgiliau iaith Gymraeg yn erbyn y **Fframwaith Cymwyseddau Iaith i Ymarferwyr Addysg**



## LEFEL UWCH

# Llyfryn Tasgau Uwch

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys nifer o dasgau Uwch i ddatblygu ac asesu pob sgil yn y Fframwaith Cymwyseddau Iaith i Ymarferwyr Addysg.

## Mae croeso i chi:

- argraffu tasgau
- lawrlwytho tasgau
- addasu tasgau i siwtio'ch anghenion chi
- addasu teitlau'r dogfennau i'ch siwtio chi
- ddefnyddio unrhyw dasg a fydd yn eich cefnogi chi i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ac i asesu myfyrwyr yn erbyn y Fframwaith.

## Tabl cynnwys

|                               |    |
|-------------------------------|----|
| Tasg llafar a darllen 1 ..... | 3  |
| Tasg llafar a darllen 2 ..... | 4  |
| Tasg gwrando 1 .....          | 9  |
| Tasg ysgrifennu 1 .....       | 10 |

# Tasg Llafar a Darllen (1): Uwch B2

Dylech recordio eich trafodaeth a chyflwyno eich hunan yn glir ar ddechrau'r recordiad. Sicrhewch fod pawb yn cyfranogi ac yn ymateb i'ch gilydd yn naturiol. Ni ddylech sgriptio eich atebion.

## Cyfarwyddiadau'r dasg:

Darllenwch y ddwy erthygl isod o Golwg360:

**Cynigion ar gyfer Bil Addysg Cymraeg newydd yn golygu mwy o ysgolion Cymraeg:**

[Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg newydd yn golygu mwy o ysgolion Cymraeg – Golwg360](#)

**Addysg ddwyieithog i bawb- y cyfaddawd perffaith?**

[Addysg ddwyieithog i bawb – y cyfaddawd perffaith? – Golwg360](#)

Ar ôl i chi eu darllen, trafodwch y cwestiynau isod **mewn grŵp o dri am 15-20 munud**.

- Sut mae'r Papur Gwyn ar addysg Gymraeg yn gobeithio cryfhau nifer y siaradwyr Cymraeg?
- Yn eich barn chi, ai addysg cyfrwng Cymraeg i bawb yw'r ateb er mwyn gwrthdroi ffigyrau isel y Cyfrifiad o ran y Gymraeg?
- Beth yw manteision a pheryglon addysg ddwyieithog yn ôl yr ail erthygl?
- Beth oedd eich profiad chi o'r Gymraeg pan oeddech yn ddisgybl ysgol?
- Sut mae'r profiad hwnnw'n cymharu â'ch profiad ysgol fel ymarferydd ar eich cwrs presennol?
- Oes rôl gan y gymuned ehangach y tu allan i gymuned yr ysgol, mewn hybu'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc?

Gellid addasu'r uchod yn dasg **Ysgrifennu a Darllen** wrth ddefnyddio'r cwestiynau uchod fel fframwaith i gyflwyniad unigol ysgrifenedig.

## Tasg Llafar a Darllen (2): Uwch B2

Dylech recordio eich trafodaeth a chyflwyno eich hunan yn glir ar ddechrau'r recordiad. Sicrhewch fod pawb yn cyfranogi ac yn ymateb i'ch gilydd yn naturiol. Ni ddylech sgriptio eich atebion.

### Cyfarwyddiadau'r dasg:

Darllenwch y ddwy erthygl isod am wisg ysgol.

Ar ôl i chi eu darllen, trafodwch y cwestiynau isod mewn grŵp o dri am 15-20 munud.

- Beth yw'r pum prif bwynt yn yr erthygl gyntaf? Trafodwch yn eich grŵp.
- Beth yw safbwyntiau gwahanol y erthygl CymruFyw?
- Gyda phwy ydych chi'n cytuno a pham?
- Disgrifiwch eich profiadau personol o wisg ysgol, gan gynnwys disgrifio'ch gwisg ysgol chi.
- Ydych chi'n gwisgo'r lliw yna'n aml nawr?
- Ydych chi erioed wedi gwisgo gwisg yn ystod eich bywyd gwaith? Os ydych, beth oedd y manteision a'r anfanteision?
- Tasech chi'n ddisgybl ysgol eto, beth fasech chi'n ei ddweud am reolau gwisg ysgol?
- Beth yw eich profiad chi yn ystod eich profiad ysgol o ddisgyblion yn cadw at reolau gwisg ysgol?
- Beth yw eich barn chi am eich rôl fel athrawon yn disgyblu plant am dorri rheolau gwisg ysgol?

**\*Gallwch hefyd ymchwilio i bolisiâu ysgol ar wisg ysgol i drafod ymhellach.**

# Erthygl 1

## Un rheol yn ormod (Colofn Beca Brown, Barn)

Gyda phob tymor addysgol newydd, daw'r straeon arferol am blant yn cael eu troi o ryw ysgol neu'i gilydd am dorri rheolau'r wisg. Yn ddiweddar, Hartsdown Academy yng Nghaint oedd yr ysgol ddaeth i sylw'r wasg, wrth i dros hanner cant o blant gael eu hel adref ar ddiwrnod cynta'r tymor am wisgo rhywbeth nad oedd yn cydymffurfio â'r rheolau.

Mae gen i amheuan am werth gwisg ysgol o unrhyw fath, heb sôn am un sydd â rheolau caeth, ond un o'r pethau a'm trawodd gyntaf am y stori yma oedd mai merched oedd y rhai oedd yn ymddangos yn yr adroddiadau, ac mai dillad merched oedd y rhan fwyaf o'r enghreifftiau a roddwyd o wisg yn tramgwyddo. Sgert ry fyr, trowsus rhy dynn, ffrils ar y sanau, bwcl aur ar esgid, esgidiau anaddas a dim blazer – dyna'r troseddau.

Mae yna rywbeth anghysurus iawn yn y syniad o oedolyn – dyn yn aml – yn penderfynu bod sgert merch ysgol yn rhy fyr, neu fod ei throwsus yn rhy dynn amdani. Rydw i wedi teimlo erioed bod gwisg ysgol yn arbennig o greulon wrth ferched, gan fod glasoed a hormonau'n golygu bod merched yn newid eu siâp mewn ffordd amlwg iawn, a bod gwisg unffurf yn medru tynnu sylw at y newidiadau hynny mewn modd sy'n eu gwneud yn anghyfforddus a hunanymwybodol. Dydy merched yn eu glasoed 'chwaith ddim wastad eisiau cuddio'u siâp newydd mewn gwisg ysgol wrywaidd ei steil, gan deimlo'n 'ffrympi' a di-ryw. Mae bechgyn yn mynd drwy newidiadau mawr hefyd wrth gwrs, ond dydyn nhw ddim yn newidiadau sy'n dylanwadu yr un fath ar yr hyn maen nhw'n debygol o fod eisiau ei wisgo.

Pan o'n i yn yr ysgol, doedd dim hawl gan ferched i wisgo trowsus. Doedd neb yn fodlon rhoi rheswm dros hyn, dim ond mai dyna oedd y rheol, ond fe ddywedodd un o nyrsus yr ysgol wrtha i nad oedd hi'n addas i ferched wisgo trowsus oherwydd glanweithdra. Dechreuwyd deiseb yn fuan wedyn, a chafwyd buddugoliaeth drowsusol glir.

Y ddadl gallaf dros gael gwisg ysgol yw bod gwisg unffurf yn lleihau'r gwahaniaeth rhwng y plant ariannog a'r plant tlotach. Os mai dyna yw'r bwriad tu cefn i sefydlu gwisg ysgol yna mae'n syniad digon clodwiw, ond dydw i ddim gant y cant yn siŵr ei fod yn gweithio. Dydy plant ddim yn wirion, ac yn anffodus, mae'r math o ffôn sydd gan blentyn, y trênyrs sydd ganddyn nhw yn y wers ymarfer corff, y lle maen nhw'n byw ynddo, beth maen nhw'n ei gymryd i ginio, a sut gar sydd gan Mam neu Dad wrth giât yr ysgol – mae'r pethau yma i gyd yn nodi'n glir y gwahaniaeth cymdeithasol rhwng plant a'u cyfoedion.

Disgyblaeth yw'r ddadl arall – eto, rhesymeg ddigon clodwiw, ond yn ôl fy nealltwriaeth i o siarad efo athrawon, y plant sy'n torri'r rheolau gwisg yw'r rhai sydd hefyd yn torri pob rheol arall. Dyma'r rhai sydd yn anystywallt yn y gwersi, yn ddigywilydd efo staff ac sy'n 'anghofio' eu gwaith cartref yn gyson. Onid dyma'r tramgwyddau a ddylai arwain at gosb?

Mae'n syniad poblogaidd hefyd fod ffurf-wisg yn paratoi person ifanc at y byd gwaith. Eto, mi welaf y rhesymeg, ond dydy'r siwt ddim mor boblogaidd ag y bu hi yn y gweithle, ac mae yna gant a mil o bethau pwysicach na gwisg pan fo rhywun yn paratoi person ifanc at ennill cyflog. Annibyniaeth, cyfrifoldeb, dyfalbarhad, derbyn bod gwaith weithiau yn boring, ac yn bwysicach na dim arall – sgiliau pobl. Y gallu i siarad efo rhywun yn synhwyrol wyneb yn wyneb, ac nid dim ond dros y bali tecst.

A beth am ffurf-wisg yn gyffredinol? Ydy, mae'r argraff gyntaf y mae rhywun yn ei rhoi'n bwysig, ond os nad oes yna fawr o sylwedd tu cefn i'r argraff ffafriol honno, beth yw'r pwynt? Beth am yr ail a'r drydedd argraff, pan nad oes neb bellach yn sylwi ar y siwt? Fe feirniadwyd Jeremy Corbyn yn hallt gan David Cameron am beidio â gwisgo tei – dyn a oedd yn ddigon hapus i roi bil o £53,000 i'r trethdalwr am gynghorydd ffasiwn i'w wraig.

Rydan ni i gyd yn hoff o wneud argraff, ond dyna'n union ydy hi – argraff, a rhan fechan iawn o'r stori ydy hynny.



# Erthygl 2

## Erthygl Cymru Fyw Awst 2022

### Ystyried cael gwared ar logos i leihau pris gwisg ysgol

**Fe all logos ar wisgoedd ysgol gael eu diddymu o dan gynlluniau Llywodraeth Cymru i leddfu'r pwysau ariannol ar deuluoedd.**

Bydd swyddogion yn ystyried os ddylai gwisgoedd gael logo o gwbl, neu ddefnyddio rhai y gellir eu smwddio ar y dillad am ddim. Mewn llythyr at gyrff llywodraethol ysgolion ddaeth i law BBC Cymru, mae'r Gweinidog Addysg Jeremy Miles yn dweud y byddai hynny yn rhoi'r dewis i deuluoedd i brynu gwisgoedd yn rhatach. Mae Plaid Cymru wedi croesawu'r syniad, ond yn dweud bod hyn yn digwydd yn "rhy hwyr" i gael effaith ar y flwyddyn hon. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar y newidiadau posib yn digwydd yn "fuan".

#### **£337 fesul disgybl**

Cyrff llywodraethol ysgolion sy'n gosod polisi gwisg a delwedd ar hyn o bryd. Mae canllawiau'r llywodraeth yn datgan y dylen nhw geisio cyfyngu logos i un eitem o ddillad.

Mae plant o deuluoedd ar incwm isel ac sy'n gymwys ar gyfer budd-daliadau penodol yn gallu gwneud cais am grant i helpu gyda gwisgoedd ysgol ac eitemau eraill. Eleni, mae'r grantiau £100 yn uwch oherwydd y cynnydd mewn costau byw. Yn ôl arolwg, mae cost flynyddol gwisg ysgol yn y DU yn £337 i ddisgybl uwchradd, ar gyfartaledd. £315 yw'r ffigwr ar gyfer disgybl cynradd. Mae nifer o rieni wedi prynu gwisgoedd ysgol yn barod ar gyfer y flwyddyn academiaidd hon.

Mae Elin Mair Wynne yn riant i ddau o blant ac yn gadeirydd llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanfechell ar Ynys Môn. Dywedodd:

"Dwi'n teimlo bod cael cael logo yn bwysig i ysgol gan ei fod yn rhoi naws o berthyn i gymuned ysgol. Mae gwisg ysgol yn gallu bod o fantais a does dim llawer o feddwl am beth i wisgo i'r ysgol bob dydd, a dim cystadleuaeth am bwy sydd gan y dillad mwyaf diweddar neu ryw *designer* ar y brig."

Mae hi'n croesawu'r syniadau ond yn dweud y gall rhieni wneud newidiadau yn barod.

"Mae modd bod yn hyblyg, cael un dilledyn gyda logo ysgol a chael dilledyn o archfarchnad ac yna thalu cost llawer llai am gael gwnio logo arno."

### **'Baich i deuluoedd'**

Yn ei lythyr, mae Mr Miles yn gofyn i ysgolion fod yn "drugarog" o ran yr angen am wisgoedd sydd wedi eu brandio yn y tymor newydd. Mewn rhai achosion, meddai, mae teuluoedd yn gwario "symiau torcalonnus" o arian er mwyn anfon eu plant i'r ysgol.

Ychwanegodd: "Gobeithio eich bod yn cytuno nad yw hynny'n dderbyniol.

"Rydym yn gwybod bod logos ysgolion, er enghraifft, yn parhau i fod yn faich i lawer o deuluoedd.

"Rwyf felly wedi gofyn i fy swyddogion ystyried opsiynau mewn perthynas â logos ar wisg ysgol.

"Bydd yr opsiynau'n ystyried a ddylai ysgolion gael logo o gwbl, neu gynnig logos yn rhad ac am ddim y gellir eu smwddio'n sownd i'r dillad.

"Byddai hyn yn rhoi'r opsiwn i deuluoedd brynu gwisg yn rhatach gan fanwerthwr o'u dewis."

Mae'r llythyr yn mynd ymlaen i ddweud: "Byddaf hefyd yn ystyried a ddylai ysgolion allu dangos bod unrhyw elw o gytundeb ariannol sydd ganddynt â darparwyr gwisg ysgol yn cael ei drosglwyddo i'r cwsmer a'i fod yn codi pris rhesymol tebyg i fanwerthwyr y stryd fawr."

### **'Rhy hwyr'**

Dywedodd Sioned Williams AS, llefarydd Plaid Cymru ar Addysg ôl-16, cyfiawnder cymdeithasol a chydaddoldeb: "Ers tro mae Plaid Cymru wedi galw am fwy o weithredu i gael gwared â chostau'r diwrnod ysgol sy'n gall golygu stigma a chodi cywilydd ar blant.

"Er fy mod yn croesawu'r ymgynghoriad yma i gael gwared ar fathodyn ysgol i leihau costau i deuluoedd a sicrhau bod unrhyw gefnogaeth ariannol yn mynd ymhellach, mae yna fwy y gall y llywodraeth wneud, er enghraifft, gwneud canllaw o ran y costau sy'n ymwneud ag addysg yn statudol.

"Hefyd, rwy'n ofni bod yr ymyrraeth yma yn rhy hwyr i gael effaith ar gyfer y flwyddyn ysgol hon."

# Tasg Gwranddo (1): Uwch B2

Dylech recordio eich trafodaeth a chyflwyno eich hunan yn glir ar ddechrau'r recordiad. Sicrhewch fod pawb yn cyfranogi ac yn ymateb i'ch gilydd yn naturiol. Dylech geisio osgoi darllen eich nodiadau.

## Cyfarwyddiadau'r dasg:

Gwrandewch ar y podlediad isod o'r Gweinidog Addysg a'r Iaith Gymraeg, Jeremy Miles, yn trafod ei weledigaeth ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru (CiG).

[Diwygio Addysg Cymru- mae'r Gweinidog, Jeremy Miles yn ateb eich cwestiynau. - Addysg Cymru | Education Wales | Podcast on Spotify](#)

Mewn grŵp o dri, ymatebwch i sylwadau'r Gweinidog, gan ffocysu ar y pwyntiau canlynol:

- agweddau pwysicaf y CiG
- y cydbwysedd rhwng hyblygrwydd a chysondeb
- rôl dysgu proffesiynol parhaus yn y broses o gyflwyno'r CiG
- eich profiad chi o'r CiG

**Hyd y drafodaeth: 15 munud.**

# Tasg Ysgrifennu (1): Uwch B2

## Cyfarwyddiadau'r dasg:

Adfyfiriwch yn feirniadol ar eich profiad ysgol, gan ganolbwyntio ar yr agweddau addysgegol (pedagogaid) llwyddiannus ohono, ynghyd ag unrhyw feysydd sydd angen eu gwella. Yn ogystal â manylu ar eich datblygiad fel ymarferydd, amlinellwch gyfraniad eich profiad ysgol at eich datblygiad ieithyddol personol.

**Diolch i bob Prifysgol sydd wedi cyflwyno  
tasgau ar gyfer y pecyn hwn:**

- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Prifysgol De Cymru
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Y Brifysgol Agored